# Gardd llesiant yn ne Cymru yn ennill gwobr y Loteri Genedlaethol

09/12/2021



Dathlu ennill gwobr y Loteri Genedlaethol

Mae prosiect sy'n defnyddio garddio a natur i wella cyflogadwyedd a llesiant pobl wedi'i enwi fel Prosiect y Flwyddyn Cymru y Loteri Genedlaethol 2021.

Mae prosiect Cadwraeth a Threftadaeth The Green Valley, dan arweiniad y Gr?p Llesiant Green Valley, yn darparu gweithgareddau awyr agored a rhaglenni hyfforddi achrededig i bobl ifanc, y mae llawer ohonynt wedi'u heithrio o'r brif ffrwd. Mae'r sefydliad hefyd yn gweithio gyda phobl o bob oed sy'n profi problemau iechyd meddwl.

Mae'r prosiect wedi meithrin cysylltiadau â grwpiau cymunedol, rhwydweithiau cymorth awtistig, canolfannau gwaith ac ysgolion, ac yn derbyn atgyfeiriadau presgripsiwn cymdeithasol gan feddygfeydd meddygon teulu. Mae'r pwyslais ar gysylltu â natur a harneisio buddion natur i wella llesiant a chyflogadwyedd.

> Mae'n lle gwych i bobl ifanc a phobl o bob cefndir dyfu.
> *Elan, cyfranogwr 15 oed*

# Safle wedi'i drawsnewid

Dair blynedd yn ôl, roedd safle'r prosiect, Anturiaethau Organig Cwm Cynon, yn dir diffaith. Heddiw, diolch i £20,000 o arian y Loteri Genedlaethol ac ymdrechion rhagorol llawer o wirfoddolwyr y prosiect, mae wedi cael ei drawsnewid yn ardd gymunedol a rhyfeddod llesiant.

Bellach, mae gan y fenter gymunedol fannau rhandiroedd i dyfu bwyd ar gyfer eu banc bwyd, caffi, ysgol haf a champfa werdd.



Elan Gwen yn yr ardd

# “Mae wedi rhoi gobaith i mi ar gyfer y dyfodol”

Gadawodd Elan Gwen, sy'n 15 oed, o Bontypridd amgylchedd ysgol ffurfiol yn 14 oed oherwydd problemau gyda phryder. Dechreuodd fynychu'r prosiect unwaith yr wythnos ac mae bellach yn treulio tri diwrnod yr wythnos, yn helpu ar y safle ac yn ymgymryd â sawl cymhwyster, gan gynnwys cwrs entrepreneuraidd.

Dywedodd Elan: “Mae’r amgylchedd dysgu yn Anturiaethau Organig Cwm Cynon yn llawer mwy addas ar gyfer fy anghenion… rwy’n teimlo’n gyffyrddus iawn yma ac nid wyf yn teimlo dan bwysau nac yn cael fy marnu. Mae pawb yn ffitio i mewn ac rydw i lawer yn hapusach fel person ac mae fy iechyd meddwl gymaint yn well.

“Mae wedi rhoi llawer o obaith i mi ar gyfer y dyfodol. Rwy'n adnabod llawer o bobl sydd wedi dod yma gyda phroblemau amrywiol ac nad oedd ganddyn nhw lawer o hyder, ond maen nhw wedi dod yma, ac maen nhw wedi tyfu i fod yn bobl wahanol. Mae'n lle gwych i bobl ifanc a phobl o bob cefndir dyfu. ”

Dywedodd Janis Werrett, cyfarwyddwr a sylfaenydd Anturiaethau Organig Cwm Cynon: “Rydyn ni wrth ein bodd bod ein prosiect wedi ennill y wobr hon ac wedi derbyn y gydnabyddiaeth ryfeddol hon. Mae'n fwy pleserus i'r cyhoedd bleidleisio drosom.

“Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol a chymorth ein gwirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi gweithio’n ddiflino i adfer a gwarchod yr adnodd gwerthfawr yma ar gyfer eu cymuned.”


Tyfu cennin

## Gwobrau'r Loteri Genedlaethol

Bob blwyddyn, mae Gwobrau'r Loteri Genedlaethol yn dathlu'r bobl a'r prosiectau ysbrydoledig sy'n gwneud pethau anghyffredin gyda chymorth cyllid y Loteri Genedlaethol.

Darllenwch ein stori newyddion am brosiect arobryn y Loteri Genedlaethol sydd wedi ysbrydoli mwy na 20,000 o bobl i helpu i amddiffyn cacwn.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

**Projects**

## Cwm Cynon yn rhyfeddod llesiant

Mae safle diffaith yng Nghwm Cynon wedi'i drawsnewid yn ardd gymunedol sy'n llawn pobl, natur a bywyd gwyllt – ac erbyn hyn mae'n lle perffaith i hybu iechyd meddwl.

17/12/2019

**Newyddion**

## Cronfa Rhwydweithiau Natur: £7.2 miliwn i amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd Cymru sydd dan fygythiad

Mae 29 prosiect ledled Cymru sy'n helpu i warchod rhai o'n rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion mwyaf poblogaidd yn derbyn cyfran o gronfa grant o £7.2 miliwn.
12/10/2021

Michaela Strachan with the winners. Credit: Alex Wilkinson.

**Newyddion**

## Pencampwyr cacwn yn ennill Gwobr Prosiect y Flwyddyn y Loteri Genedlaethol

Mae prosiect sydd wedi ysbrydoli dros 20,000 o bobl i helpu i ddiogelu cacwn yn y Peak District wedi ennill Gwobr y Loteri Genedlaethol.
03/11/2021